Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Dyddiad: **21 Ionawr 2016**

Amser: **Rhwng 12.30pm a 14.00pm**

Teitl: **Papur tystiolaeth – Dyraniadau Cyllideb Ddrafft Plant a Phobl Ifanc ar gyfer 2016-17.**

1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi sylwadau a gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cynigion ar gyfer cyllideb rhaglen Plant a Phobl Ifanc yn y dyfodol a nodir yn y Gyllideb Ddrafft a gyflwynwyd ar 8 Rhagfyr 2015. Mae'r gyllideb ar gyfer y maes hwn yn rhan o Brif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi.

2. Cefndir

O gymharu â Llinell Sylfaen Cyllideb 2016-17 mae cyfanswm dyraniad DEL ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi wedi cynyddu £65.289m i £677.323.

Mae hyn yn cynnwys cynnydd o £3.022m yn DEL Adnoddau i £333.592m a chynnydd net o £68.311m yn y gyllideb Gyfalaf i £343.731m.

Dengys y tablau ariannol cryno canlynol yr effaith gyffredinol ar y gyllideb sylfaenol Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) ar gyfer Cymunedau a Threchu Tlodi.

Tablau Ariannol Cryno:

MEG CTP	Cyllideb Atodol 2015-16 £000	Llinell Sylfaen Cyllideb 2016-17 £000	Newidiadau 2016-17 £000	Cyllideb Ddrafft 2016-17 £000
DEL Adnoddau	341,514	336,614	-3,022	333,592
DEL Cyfalaf	395,420	275,420	68,311	343,731
Llinell Sylfaen DEL	736,934	612,034	65,289	677,323

O fewn MEG CTP, crynhoir yr effaith benodol ar y gyllideb ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn y tabl isod.

Cymunedau, Pobl Ifanc a Theuluoedd	Cyllideb Atodol 2015-16 £000	Llinell Sylfaen Cyllideb 2016-17 £000	Newidiadau 2016-17 £000	Cyllideb Ddrafft 2016-17 £000
DEL Adnoddau	125,384	125,384	-946	124,438
DEL Cyfalaf	6,950	0	3,000	3,000
Llinell Sylfaen DEL	132,334	125,384	2,054	127,438

Y llinell sylfaen cyfalaf yw sero ar gyfer 2016-17 gan fod cyllid 2015-16, sef £6.950m, i gyd yn gyllid anghylchol ar gyfer rhaglen Dechrau'n Deg, y daeth £4.950m o'r Prif Grŵp Gwariant i gefnogi rhaglen Dechrau'n Deg wrth iddi ehangu i roi cymorth i ddwywaith nifer y plant, o 18,000 i 36,000.

3. Trosolwg o'r Gyllideb

Nod cyffredinol yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi yw uno'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn ei wneud i drechu tlodi a sicrhau bywyd tecach a mwy cynaliadwy ac ansawdd bywyd gwell ar gyfer cymunedau, teuluoedd ac unigolion, nawr ac yn yr hirdymor.

Mae'r portffolio yn gweithio i atal tlodi, helpu pobl i ddianc rhag tlodi a helpu i greu cymunedau cadarn lle y gall teuluoedd ac unigolion gael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Rydym yn helpu i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn cefnogi teuluoedd. Ein nod yw sicrhau y caiff un o'r anghenion llesiant mwyaf sylfaenol - sef yr angen am gartref da - ei ddiwallu, yn enwedig ar gyfer pobl a fyddai, fel arall, yn cael eu hallgáu o'r farchnad dai. Rydym yn buddsoddi ac yn gweithio gyda chymunedau yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig er mwyn gwella eu llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Rydym yn cymryd camau i ymgorffori cydraddoldeb, gan gynnwys hawliau plant a phobl ifanc, ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus; ac yn helpu'r trydydd sector i chwarae ei ran i sicrhau'r canlyniadau rydym yn gweithio tuag atynt ac am eu gweld yng Nghymru.

Mae gan yr Adran nifer o flaenoriaethau penodol sy'n adlewyrchu'r Rhaglen Lywodraethu ac yn helpu i'w chyflawni, y mae llawer ohonynt hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc:

- cefnogi teuluoedd a phlant, yn enwedig drwy Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf;

- trechu tlodi a hyrwyddo cydnerthedd cymunedol gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf;
- darparu tai fforddiadwy, diogel a chlyd ar gyfer plant a phobl ifanc drwy ein Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol;
- gwella ansawdd y stoc tai cymdeithasol yng Nghymru drwy ein rhaglen Lwfans Atgyweiriadau Mawr;
- adfywio ein trefi a'n cymunedau drwy Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid;
- darparu cymorth drwy ein rhaglen Cefnogi Pobl er mwyn galluogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain am fwy o amser;
- lliniaru effaith diwygiadau lles;
- cynyddu cynhwysiant ariannol a digidol, gan gynnwys y Gronfa Cymorth Dewisol ac Undebau Credyd;
- cynyddu argaeledd darpariaeth gofal plant a chwarae o ansawdd;
- hyrwyddo hawliau a chyfranogiad plant a phobl ifanc;
- hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant;
- helpu i ddatblygu'r Trydydd Sector a gwella ei gydberthynas strategol â'r Llywodraeth.

4. Manylion Dyraniadau Llinell Wariant yn y Gyllideb

Ceir crynodeb o ddyraniadau cyllidebol Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ar lefel Llinell Wariant yn y Gyllideb yn Atodiad 1, sy'n rhoi dadansoddiad o'r canlynol:

- dyraniadau 2016-17;
- dyraniadau 2015-16 - mae'r alldroeon rhagamcanol ar gyfer 2015-16, ar yr adeg hon yn y flwyddyn ariannol, yn unol â'r gyllideb;
- ffigurau alldro terfynol 2014-15.

Noder: ni fu unrhyw newidiadau rhwng y gyllideb derfynol ym mis Gorffennaf 2014 a'r gyllideb atodol gyntaf ym mis Mehefin 2015 heblaw am drosglwyddo'r gyllideb ar gyfer Eiriolaeth i Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r newidiadau rhwng cyllideb sylfaenol 2016-17 a chyllideb ddrafft ddiwygiedig 2016-17 fel a ganlyn:

- Teuluoedd yn Gyntaf gostyngiad o £1.074m
- Y Comisiynydd Plant gostyngiad o £0.172m
- Strategaethau Gofal Plant a Chwarae gostyngiad o £0.3m
- Cyfalaf Dechrau'n Deg cynnydd o £3.0m

Mae effaith y newidiadau hyn wedi'i dogfennu'n llawn yn nogfen ategol yr Asesiad Effaith Integredig.

5. Hawliau a chydraddoldeb Plant

Mae Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar bob Gweinidog i roi sylw dyledus i CCUHP wrth iddynt arfer eu swyddogaethau.

Er mwyn galluogi Gweinidogion, a'u swyddogion, i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon, mae prosesau cadarn ar waith a nodir yn ein Cynllun Hawliau Plant, gan gynnwys proses Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant sy'n annog ystyried CCUHP, yr effaith ar blant a phobl ifanc, sut y bydd yn hyrwyddo hawliau plant, sut y gellir manteisio i'r eithaf ar yr effaith gadarnhaol a sut y gellir dileu neu liniaru'r effaith negyddol.

Rhoddwyd Dull Gweithredu Integredig ar waith ar gyfer Asesu Effaith ar gyfer cyllideb 2015-16, sy'n cynnwys rhoi sylw i'r holl ddyletswyddau ac asesiadau effaith gorfodol. Rhoddwyd sylw i hawliau plant ac effaith penderfyniadau cyllidebol ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fel rhan o'r Dull Integredig hwn o Asesu Effaith.

Rôl Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) yw rhoi cyngor a rhannu arbenigedd ac arfer gorau o ran materion cydraddoldeb er mwyn helpu i wella'r Asesiad Effaith a wneir o Gyllideb Llywodraeth Cymru yn barhaus. Rydym yn gweithio gyda BAGE drwy gydol y flwyddyn er mwyn gwella ein dull gweithredu a llywio ein penderfyniadau.

At hynny, mae cyllideb Cefnogi Hawliau Plant o fewn y Cam Gweithredu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd wedi'i hanelu'n benodol at ddatblygu hawliau plant a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, gan helpu Gweinidogion a swyddogion i gydymffurfio â'r ddyletswydd ar Weinidogion i roi ‘sylw dyledus’ i CCUHP a hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth am hawliau plant a phobl ifanc ymhellach. Mae hyn yn cynnwys:

- cynnal y contract ar gyfer rhoi hyfforddiant i weithwyr proffesiynol mewn hawliau plant, gan gynnwys darlithwyr, hyfforddwyr gwaith cymdeithasol, athrawon, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr iechyd proffesiynol, yr heddlu ac ati;

- parhau i hyrwyddo hawliau plant yn unol ag Adran 5 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 drwy ddefnyddio (a datblygu) adnoddau hyrwyddo sy'n bodoli eisoes gan gynnwys tudalennau gwe Llywodraeth Cymru, gwefan Gwneud Pethau'n lawn CCUHP, y pecyn hyfforddi ar-lein, Gweithdrefn Gwyno Plant a Phobl Ifanc, yr Ap a'r fideo ar YouTube;

- Gweithredu canfyddiadau'r gwerthusiad annibynnol o broses Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant.

Wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy at y broses gyllidebol o fewn Cymunedau a Threchu Tlodi, gwnaed penderfyniadau sy'n adlewyrchu pum ffordd o weithio datblygu cynaliadwy, sef:

- Cydweithredu – cydnabod na all llawer o'r atebion i heriau ‘cynaliadwyedd’ sy'n wynebu Cymru gael eu datrys gan un sefydliad. Bydd parhau â'n cefnogaeth i gyngor ar ddatblygu cynaliadwy i bob sector yn helpu i nodi

cyfleoedd i gydweithredu. Byddwn hefyd yn parhau i geisio nodi cyfleoedd i gydweithredu ym mhob rhan o'r Llywodraeth ac â phartneriaid eraill, gan gynnwys y trydydd sector, er mwyn sicrhau bod rhaglenni a gwasanaethau yn cyrraedd y cymunedau sydd eu hangen fwyaf.

- Integreiddio – mae ein rhaglenni Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf yn rhannu canlyniadau, sef hyrwyddo ffyniant a chyflogaeth, dysgu a gwireddu potensial ac iechyd a lles. Maent hefyd yn helpu i gyflawni amcanion yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r canlyniadau hyn yn cael eu dwyn ynghyd mewn Fframwaith Canlyniadau Cyffredin, sydd â'r nod o hyrwyddo mwy o gysondeb rhwng prosesau cyflawni rhwng pob un o'r tair rhaglen.

- Hirdymor – Rydym wedi ystyried effeithiau **hirdymor** posibl ein penderfyniadau a chydbwyso hyn yn erbyn ein hanghenion byrdymor. Mae hyn wedi ein galluogi i gynllunio ar sail cydnabod heriau cyn iddynt godi fel y gallwn gydbwyso pwysau byrdymor ag anghenion hirdymor. Yn benodol drwy fuddsoddi mewn cymorth ar gyfer y blynyddoedd cynnar a theuluoedd, gan fod y dystiolaeth yn dangos y bydd hyn yn sicrhau mwy o fanteision yn yr hirdymor.

- Atal – ceisio mynd i'r afael â phroblemau pan fyddant yn codi, yn hytrach na mynd i'r afael â chanlyniadau'r problemau hyn yn ddiweddarach. Mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn ddull gweithredu a allai sicrhau arbedion cost hirdymor yn ogystal â bod o fudd i bobl a chymunedau. Mae'r dull hwn o weithredu wrth wraidd ein rhaglenni trech tlodi, yn enwedig Teuluoedd yn Gyntaf, a'n dull o fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a wynebir gan y rhai â nodweddion gwarchodedig.

- Cynnwys– cydnabod pwysigrwydd cynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt: er enghraifft, mae cynnwys cymunedau yn nodwedd allweddol ar raglen Cymunedau yn Gyntaf.

Mae blaenoriaethu anghenion y tlotaf a diogelu'r rhai mwyaf difreintiedig sydd fwyaf agored i niwed yn hanfodol, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn darparu fframwaith pwysig ar gyfer yr ymdrechion hyn. Yn benodol, mae camau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi a chamau gweithredu i leihau anghydraddoldebau nid yn unig yn ategu ei gilydd ond hefyd yn adeiladu ar ei gilydd.

Dengys tystiolaeth fod pobl â nodweddion gwarchodedig penodol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn cartrefi incwm isel ac, felly, bydd mentrau sy'n mynd i'r afael â thlodi yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hynny. Gwyddom hefyd fod grwpiau lleiafrifoedd ethnig penodol, pobl anabl, unig rieni (sy'n ferched yn bennaf) a phobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant yn fwy tebygol o fod yn byw mewn cartrefi incwm isel. Yn benodol, mae pobl anabl yn cael eu cynrychioli'n anghymesur mewn cartrefi economaidd anweithgar ac

aelwydydd heb waith. Byddwn yn parhau i nodi cyfleoedd i gysoni Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ag amcanion y Strategaeth Tlodi Plant a'n Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, ac yn cefnogi'r plant a'r teuluoedd hynny â nodweddion gwarchodedig penodol. Eisoes mae mwy o bwyslais ar fonitro canlyniadau'r grwpiau hynny sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi a'r rhai â nodweddion gwarchodedig o fewn y rhaglenni ym mhortffolio Cymunedau a Threchu Tlodi.

6. Gwybodaeth Arall

Monitro, Gwerthuso a Gwerth am arian

Mae amrywiaeth o weithgareddau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd er mwyn ein galluogi i adeiladu ar ganfyddiadau'r gwerthusiad cenedlaethol annibynnol o raglen Dechrau'n Deg. Mae'r llinyn cyntaf o waith yn cynnwys ymchwil ansoddol sy'n dilyn 72 o deuluoedd ar eu taith drwy raglen Dechrau'n Deg dros dair blynedd. Disgwylir i'r adroddiad blynyddol cyntaf gael ei gyhoeddi ar 18 Ionawr 2016 ac fe anfonir copïau i aelodau y pwyllgor ar y dyddiad cyhoeddi. Mae'r ail linyn o waith yn cynnwys defnyddio'r setiau data presennol i fonitro a gwerthuso Dechrau'n Deg. Rydym yn gwneud rhywfaint o waith gyda Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol newydd Cymru. Bydd ymchwilwyr annibynnol yn ystyried gwahaniaethau mewn canlyniadau addysg ac iechyd ar gyfer y rhai sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd lle nad yw'r rhaglen ar waith. Yn drydydd, rydym yn cynnal dadansoddiad ychwanegol o asesiadau datblygiadol Dechrau'n Deg. At hynny, rydym yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol er mwyn diweddaru ein dull o fonitro canlyniadau plant yn y dyfodol pan fyddant yn gadael rhaglen Dechrau'n Deg. Mewn perthynas â rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, byddwn yn parhau i gasglu data gan Awdurdodau Lleol. Defnyddir y data hyn i fonitro perfformiad, asesu canlyniadau i deuluoedd a llywio'r broses o wella a chyflawni'r rhaglen yn y dyfodol.

Y Rhaglen Lywodraethu

Yn 2011, cyflwynwyd y Rhaglen Lywodraethu fwyaf uchelgeisiol a chynhwysfawr ers datganoli, sydd bellach yn cynnwys 547 o ymrwymiadau ar wahân sy'n cwmpasu'r holl wasanaethau rydym yn gyfrifol amdanynt. Gwnaethom hynny gan wybod bod y rhagolygon ar gyfer arian cyhoeddus yn heriol.

Roedd ymdopi â chyni cyllidol yn brawf mawr i Lywodraeth Cymru ac i ddatganoli yn gyffredinol, ond gwnaethom lwyddo drwy gadw ffocws cadarn ar ddarpariaeth ac ar gefnogi'r sawl sydd â'r angen mwyaf. Rydym wedi gwneud hynny drwy bennu pedair blaenoriaeth gyffredinol ar ran pobl Cymru, ym maes iechyd a gwasanaethau iechyd, cyrhaeddiad addysgol, twf a swyddi, a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Yn achos pob un o'r blaenoriaethau allweddol hyn, rydym wedi targedu ein hadnoddau er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Fel Llywodraeth, rydym wedi cynnal ein hymrwymiad i'r egwyddor o dryloywder, fel y gellir barnu'r Llywodraeth hon ar ei chyflawniadau. Ers 2011, rydym wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol i ddarparu cofnod tryloyw o'r hyn sy'n cael ei wneud a'i gyflawni yn erbyn ein 547 o ymrwymiadau a fesurir drwy gyfrwng 336 o ddangosyddion perfformiad a chanlyniadau.

Cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol olaf ar y Rhaglen Lywodraethu ym mis Mehefin 2015 a ddangosodd fod mwy na 95 y cant o'n hymrwymiadau naill ai wedi cael eu cyflawni, neu ar y llwybr cywir i gael eu cyflawni.

Wrth baratoi ar gyfer cyfyngiadau ariannol yn y dyfodol, rydym wedi ceisio targedu buddsoddiad er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau gwario yn parhau i ganolbwyntio ar ein prif flaenoriaethau, sef: iechyd a gwasanaethau iechyd; twf a swyddi; cyrhaeddiad addysgol; a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig.

Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig ag amseriad hwyr Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant, rydym wedi defnyddio'r broses o gynllunio ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2016-17 fel cyfle i edrych i'r dyfodol er mwyn targedu buddsoddiad mewn canlyniadau cynaliadwy a mabwysiadu'r pum ffordd allweddol o weithio a nodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin i gyrff cyhoeddus drwy bennu saith nod llesiant i Gymru, ac mae'r pum ffordd o weithio yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn arddel safbwynt hirdymor wrth wneud penderfyniadau; eu bod yn ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn atal problemau rhag codi yn y dyfodol neu atal problemau presennol rhag gwaethygu; eu bod yn mabwysiadu dull integredig a chydweithredol o wneud penderfyniadau; a'u bod yn cynnwys defnyddwyr yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Gwariant Ataliol

Mae gwariant ataliol yn dal i fod yn un o themâu allweddol y rhaglenni cymorth i deuluoedd. Bu Teuluoedd yn Gyntaf yn destun gwerthusiad annibynnol tair blynedd. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Medi a nododd yr arbedion cost mawr y gallai'r rhaglen eu gwneud drwy helpu teuluoedd i osgoi canlyniadau hirdymor gwael. Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen ymyrraeth gynnar a gaiff ei llywio gan y corff rhyngwladol cynyddol o dystiolaeth sy'n ategu'r rôl gadarnhaol y mae ymyriadau yn y blynyddoedd cynnar yn ei chwarae i wella datblygiad plant a phobl ifanc a'u cyfleoedd pan fyddant yn oedolion. Nododd adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015 gan y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar gost ariannol cyfleoedd a gollwyd i roi cymorth wedi'i dargedu cynnar i blant a phobl ifanc. Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai “early Intervention is the smart and realistic choice for using ever scarcer public money”.

Mae rôl y Comisiynydd Plant wrth graffu ar y llywodraeth a sicrhau bod deddfwriaeth, polisïau a phenderfyniadau yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd unwaith eto yn canolbwyntio’n gryf iawn ar **fesurau ataliol**. Yn yr un modd, mae ein dyraniadau cyllid ar gyfer Eiriolaeth a

Chefnogi Hawliau Plant yn canolbwyntio'n gryf ar **wariant ataliol** – gan roi gwybodaeth a sicrwydd i blant allu gwneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau a'u grymuso i wneud hynny, gan ddatrys problemau heb orfod eu huwchgyfeirio'n ddiangen sy'n achosi llawer o straen.

Wrth ddrafftio ein cynigion cyllidebol ar gyfer 2016-17, rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau, gan sicrhau bod ein dyraniadau cyllid arfaethedig yn adlewyrchu ein Hegwyddorion cyffredinol i Gymru, gyda phwyslais ar drechu tlodi drwy gydweithio â'n partneriaid er mwyn sicrhau gwell dyfodol i gymunedau ledled Cymru. Mae'n ataliol o ran ei natur, gan arddel safbwynt hirdymor a gweithio gyda chymunedau.

Yn benodol, mae'r Cam Gweithredu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn cefnogi nifer o raglenni allweddol gan gynnwys Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, y mae'r ddwy ohonynt yn canolbwyntio ar gefnogi plant a'u teuluoedd. Yn 2016-17 byddwn yn buddsoddi £119.472m (gwariant refeniw). Atodir manylion y Llinell Wariant yn y Gyllideb yn Atodiad 1.

Deddfwriaeth
Ar hyn o bryd ni wyddom am unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymorth i Deuluoedd.

7. Meysydd penodol

Dechrau'n Deg

Mae Cyllideb Dechrau'n Deg wedi'i diogelu'n llawn a chaiff ei chynnal ar bron **£77 miliwn**. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y gwaith da sy'n cael ei wneud i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd yn parhau.

Ni chaiff dyraniadau grant i Awdurdodau Lleol eu dadgyfuno'n hawliadau Dechrau'n Deg. Disgwylir i Awdurdodau Lleol gyflwyno a thrafod cynllun gwaith blynyddol a fydd yn nodi sut y caiff y grant ei wario a chytuno ar y cynllun hwnnw.

Mae Awdurdodau Lleol yn cyflwyno data yn dymhorol. Defnyddir y data hyn i asesu sut mae'r rhaglen yn perfformio, nodi meysydd o arfer da a lle y gellid gwella perfformiad. Cytunir ar Gynllun Gwella Ansawdd â phob Awdurdod Lleol er mwyn llywio'r gwaith o wella perfformiad a phrosesau cyflawni. Bu'r rhaglen hefyd yn destun amrywiaeth o weithgareddau gwerthuso.

Nid yw costau'r gofal plant a gynigir fesul plentyn ar gyfer 2015-16 ar gael eto. Felly, mae'r amcangyfrifon a ddefnyddir ar gyfer y gost fesul plentyn yn seiliedig ar ffigurau ar gyfer y flwyddyn 2014-15 ac maent fel a ganlyn:

- Y gost fesul sesiwn gofal plant a gontractiwyd: £23.02
- Y gost fesul awr o ofal plant a gontractiwyd: £9.21

Mae manteisio ar yr hawl i weithgarwch iaith a chwarae y cyfeirir ato bellach fel darpariaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn parhau i gael ei ddiffinio fel cwrs a gynigir i unigolyn â chyfrifoldeb rhiant a aeth i'r sesiwn gyntaf. Caiff y ffordd y cyflwynir ac y gweithredir yr hawl hon yn y rhaglen ei monitro yn yr un modd ag elfennau eraill o ran cyflwyno data perthnasol sydd wedyn yn destun y dadansoddiad y cyfeiriwyd ato uchod.

Mae tystiolaeth werthusol yn awgrymu bod plant sy'n manteisio ar ddarpariaeth Dechrau'n Deg a'r ddarpariaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn cyflawni canlyniadau gwell o ran eu datblygiad cymdeithasol a'u bod wedi'u paratoi'n well ar gyfer yr ysgol ac i ddysgu. Mae buddsoddiad wedi'i dargedu yn y cymunedau â'r gyfran uchaf o aelwydydd â phlant 0-4 oed sy'n cael budd-daliadau incwm.

Dengys y dystiolaeth a ddarperir mewn adroddiadau gwerthuso a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fod rhaglen Dechrau'n Deg wedi arwain at fwy o ymgysylltu â gwasanaethau teuluoedd nag a fyddai wedi digwydd heb y rhaglen. Mae hyn yn hanfodol i nodi anghenion yn gynnar ac annog teuluoedd i fanteisio ar bethau eraill a gynigir gan raglen Dechrau'n Deg a gwasanaethau blynyddoedd cynnar eraill. Roedd lefelau ymwybyddiaeth o raglenni rhianta hefyd yn uwch ymhlith rhieni yn y grŵp Dechrau'n Deg ac roedd mwy ohonynt yn cael eu cyfeirio atynt ac yn eu defnyddio. Mae mwy o ymgysylltu â gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn bwysig i ddatblygu'r effeithiau tymor canolig a hirdymor y disgwylir i'r rhaglen eu cael yn y dyfodol.

Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod gwasanaethau lleol i deuluoedd yn cael eu parchu fwy gan deuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg nag mewn ardaloedd lle nad yw'r rhaglen ar waith. Er enghraifft, mae teuluoedd yn y grŵp Dechrau'n Deg yn fwy tebygol o fod wedi sylwi ar welliant mewn gwasanaethau lleol dros y ddwy flynedd diwethaf. Roedd lefelau boddhad â darpariaeth gofal plant leol bob amser yn uwch ymhlith teuluoedd Dechrau'n Deg o ran ansawdd a'i gallu i helpu plant i ddysgu a datblygu.

Mae gwybodaeth o adroddiadau cynnydd blynyddol, adroddiadau arolygu a chyfweliadau â rhanddeiliaid, o'i hystyried ochr yn ochr â nifer y teuluoedd sydd bellach yn manteisio ar ddarpariaeth gofal plant, lefelau cymwysterau gwell staff a data tueddiadau sydd ar gael ar ddata Cyfnodau Twf ac asesiadau athrawon, yn awgrymu bod arwyddion pendant bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd darpariaeth gofal plant.

Asesir y gwerth am arian a gynigir gan ofal plant o fewn y rhaglen yn barhaus. Caiff costau eu cymharu rhwng Awdurdodau Lleol, caiff nifer y lleoedd a brynwyd sy'n cael eu llenwi ei monitro a chytunir ar gyllidebau gofal plant fel rhan o gynlluniau gwaith blynyddol.

Dylai fod gan bob teulu mewn ardal Dechrau'n Deg fynediad parhaus at gylch iaith a chwarae priodol. O'r fan hon, gellir targedu cymorth a'i seilio ar asesiad ac atgyfeiriad lle mae tystiolaeth o angen ychwanegol. Mewn rhai awdurdodau lleol,

cyflogir therapyddion iaith a lleferydd fel rhan o dîm craidd Dechrau'n Deg. Pan ellir cysylltu'r dull hwn o weithredu â thystiolaeth o anghenion lleol a'r effaith ar ganlyniadau, caiff ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Cymorth arall i deuluoedd

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen arloesol sy'n hyrwyddo datblygu systemau amlasiantaeth effeithiol a chymorth i deuluoedd gan bob awdurdod lleol, gyda ffocws clir ar **atal ac ymyrraeth gynnar** ar gyfer teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn **tlodi**. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod tymor y Cynulliad hwn a byddwn yn buddsoddi **£42.6m yn 2016-17.** Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o £1.074 o gymharu â dyraniadau cyllideb 2015-16. Fodd bynnag, erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn byddwn wedi dyrannu **£226.5m** i raglen Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae cyllid ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru yn rhan o'r Grant Cynnal Refeniw. Mater i bob Awdurdod Lleol yw penderfynu ar y gyfran o'i Grant Cynnal Refeniw y bydd yn ei dyrannu i'w Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod Cymru yn darparu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd heb ei ail. Mae contract ar waith a fydd yn cynnig ffynhonnell ganolog o gymorth i rwydwaith y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. Bydd yn hyrwyddo Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd cyson o safon yng Nghymru drwy hyrwyddo canllawiau Llywodraeth Cymru, sef '*Darparu Gwybodaeth o Safon i Deuluoedd gyda'n Gilydd – Dogfen gyfarwyddyd ar gyfer y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru* '.

Y Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd

Nod lefel uchel y Grant Cyflawni Plant a Phobl Ifanc yw lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd, addysgol ac economaidd i blant sy'n byw mewn tlodi. Mae'r grant yn cefnogi teuluoedd mewn ffyrdd ymarferol, mesuradwy, gyda phwyslais penodol ar feithrin gwydnwch teuluoedd a'u gallu i ddod yn llai dibynnol ar ymyriadau parhaus.

Ers i geisiadau gael eu cymeradwyo mae'r gyllideb gyffredinol ar gyfer y rhaglen wedi aros yn ddigyfnewid, sef £10.1m. Bu newidiadau i gyllidebau blynyddol o fewn y rhaglen gan fod tanwariannau sydd i'w priodoli i oedi wrth ddechrau prosiectau wedi'u trosglwyddo i flynyddoedd diweddarach. O ganlyniad, mae'r costau ar gyfer 2016-17 wedi cynyddu tua £13k o £3.3598m i £3.372m.

Comisiynwyd un prosiect a gynhelir gan Plant yng Nghymru i wneud gwaith ychwanegol ar gyfranogiad plant a phobl ifanc yn ystod 2015-16 fel rhan o brosiect y Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd a dyfarnwyd £80k ychwanegol i wneud y gwaith. Darparwyd yr £80k gan yr Is-Adran Dyfodol Tecach ac nid effeithiwyd ar gyllidebau'r Is-adran Teuluoedd.

Ystyrir bod y cynnydd a wnaed hyd yma o ran pob un o'r pum prosiect a ariennir o dan y rhaglen yn dda. Er enghraifft, mae partneriaeth CWLWM, gyda rhai mân eithriadau, wedi cyflawni pob un o'i thargedau o fewn yr amrywiant o 10%. Mae partneriaid prosiect wrthi'n cydweithio ar gynllun peilot i ddatblygu partneriaethau rhwng gofalwyr plant cofrestredig a grwpiau chwarae. Bydd hyn yn cefnogi dull gweithredu integredig rhwng gofal plant ac addysg cyfnod sylfaen y blynyddoedd cynnar a ariennir yng Nghymru. Nodau'r prosiect yw cyflawni canlyniadau mwy cadarnhaol i blant, gwella cynaliadwyedd y lleoliad, datblygu gwaith partneriaeth a diwallu anghenion rhieni sy'n gweithio. Mae astudiaeth ymchwil gynhwysfawr hefyd yn mynd rhagddi er mwyn nodi anghenion rhieni.

Tlodi Plant

Mae trechu tlodi plant yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru. Yn ein Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig, a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2015, ailddatganwyd ein hymrwymiad i'r uchelgais o ddileu tlodi plant erbyn 2020. Rydym yn cydnabod yr heriau enfawr sy'n ein hwynebu o ran cyflawni hyn, yn enwedig yn sgil effeithiau'r Diwygiadau Lles a'u heffaith anghymesur ar deuluoedd â phlant. Serth hynny, mae pennu'r cyfeiriad strategol hwn yn hanfodol. Rydym am gefnogi rhieni er mwyn sicrhau y caiff plant y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Rydym am ddileu'r rhwystrau hynny sy'n atal llawer o blant a phobl ifanc rhag llwyddo a gwireddu eu llawn botensial. At hynny, rydym am liniaru effeithiau tlodi drwy bwyslais parhaus ar fynediad at wasanaethau a chymorth. Mae tlodi plant yn uchel o hyd yng Nghymru, gyda 31 y cant o blant yng Nghymru yn byw mewn cartrefi incwm isel, yn ystod y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben yn 2013/14. Drwy barhau â'r uchelgais i ddileu tlodi plant, rydym yn anfon neges gref i bob partner bod angen inni barhau i ganolbwyntio ar dlodi plant.

Mae ein Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig yn cadw tri amcan Strategaeth 2011, sy'n canolbwyntio ar leihau diweithdra, cynyddu sgiliau a lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd ac addysg. Mae hefyd yn cynnwys dau amcan newydd, sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio pob dull sydd ar gael i greu economi gref sy'n cefnogi'r agenda trechu tlodi a helpu aelwydydd i gynyddu eu hincwm drwy liniaru effeithiau diwygiadau lles a mynd i'r afael â'r premiwm tlodi. Mae'r amcanion newydd hyn yn adlewyrchu canfyddiadau allweddol gwerthusiad 2014 o'r Strategaeth Tlodi Plant, a gydnabu bwysigrwydd parhaus buddsoddi mewn rhaglenni a pholisïau sy'n atal tlodi, yn ogystal â chefnogi aelwydydd "yma, nawr" i gyflawni gwell canlyniadau.

Drwy Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig Llywodraeth Cymru a Cham Gweithredu Trechu Tlodi, rydym yn parhau i fesur canlyniadau cartrefi incwm isel. Rydym hefyd yn gwerthuso ein rhaglenni trechu tlodi ac yn defnyddio tystiolaeth am "yr hyn sy'n gweithio" i lywio ein penderfyniadau ynghylch buddsoddi yn y dyfodol.

Rydym yn dal i fod yn llwyr ymrwymedig i fuddsoddi ym mlynyddoedd cynnar bywyd plentyn, gan gydnabod ei rôl allweddol i atal tlodi yn y tymor hwy. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni megis Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf er mwyn cyflawni'r agenda hon. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd helpu pobl i gael gwaith a gwella cyflogadwyedd, gan mai gwaith yw'r llwybr mwyaf cynaliadwy i ddianc rhag tlodi. Bydd rhaglenni Trechu Tlodi megis Cymunedau yn Gyntaf yn parhau i chwarae rôl bwysig.

Er ein bod yn gwneud cynnydd pwysig o ran nifer o ddangosyddion allweddol, megis gwella deilliannau addysgol yn y Cyfnod Sylfaen a lleihau canran y plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith i'w lefel isaf (14.6 y cant ar ddiwedd 2014), gwyddom fod angen inni wneud mwy. Yn benodol, mae lleihau anghydraddoldebau addysgol yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol. Mae rhaglenni megis y Grant Amddifadedd Plant ac Ailysgrifennu'r Dyfodol yn allweddol i sicrhau ffocws parhaus ar wella deilliannau addysgol a chodi dyheadau ymhlith disgyblion o gartrefi incwm isel.

Ni allwn anwybyddu'r ffaith nad oes gan Lywodraeth Cymru yr holl ddulliau sydd ar gael i ddylanwadu ar lefelau tlodi. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am rai o'r dulliau mwyaf pwysig, megis newidiadau i'r system treth a budd-daliadau.

Cadarnhaodd Llywodraeth y DU yn Natganiad Hydref 2015 y caiff £12 biliwn o doriadau lles blynyddol eu cyflawni erbyn 2019-20. Bydd y toriadau hyn yn effeithio ar gartrefi incwm isel a'r rhai â phlant a byddant yn ychwanegu at y colledion a ddioddefwyd eisoes o ganlyniad i'r toriadau lles a gyflawnwyd gan Lywodraeth y DU dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf

Cyhoeddwyd ein hadroddiad diweddaraf (a luniwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid) ar 19 Tachwedd 2015. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â newidiadau Llywodraeth y DU i'r system treth a budd-daliadau a gyhoeddwyd hyd at a chan gynnwys Cyllideb mis Gorffennaf, a gyflwynir rhwng 2015–16 a 2019–20. Ers i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, cyhoeddodd Datganiad yr Hydref ragor o newidiadau gan gynnwys y penderfyniad i wrthdroi'r prif doriadau i gredydau treth, yr oedd disgwyl iddynt gael eu gweithredu o fis Ebrill 2016. Fodd bynnag, dim ond rhyddhad byrdymor a gynigir gan y diogelwch hwn oherwydd caiff credydau treth eu dileu'n raddol erbyn 2018 ac ni wrthdrowyd y toriadau arfaethedig i Gredyd Cynhwysol. Golyga hyn y bydd yr effaith tymor hwy fwy neu lai yr un peth, fel y nodwyd gan waith dadansoddi blaenorol.

Yn gyffredinol, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn disgwyl i'r newidiadau i'r system treth a budd-daliadau gynyddu nifer yr aelwydydd sydd islaw'r llinellau tlodi absoliwt a chymharol, mewn senario lle na chyflwynwyd y newidiadau hyn. Ar gyfartaledd, mae aelwydydd mewn grwpiau incwm isel yn colli tua 7% (neu £1,461) o incwm net o gymharu â chynnydd bach (0.5% neu £321) ar gyfer aelwydydd yn y grwpiau incwm cyfoethocaf (sy'n cael budd o'r pensiwn un haen a gofal plant di-dreth).

Nid y bobl dlotaf a fydd yn wynebu'r colledion mwyaf (naill ai mewn arian parod neu yn nhermau canrannau) ond aelwydydd yn rhan isaf canol y dosbarthiad incwm. Mae'r aelwydydd hyn (yr effeithir arnynt yn benodol gan y toriadau i gymorth yn y gwaith o dan Gredyd Cynhwysol) yn byw wrth ymyl y ffin tlodi.

Gan ystyried y mesurau treth a budd-daliadau, yn ogystal â'r penderfyniad i gyflwyno'r cyflog byw cenedlaethol, mae'r Resolution Foundation yn amcangyfrif y bydd hyd at 600,000 o blant ychwanegol yn y DU yn mynd o dan y ffin tlodi ar ôl i'r holl fesurau polisi a nodir yng Nghyllid Haf Llywodraeth y DU ddod yn weithredol. Mae dwy ran o dair o'r cynnydd hwn ymhlith plant mewn aelwydydd sy'n gweithio.

Ni all Llywodraeth Cymru wneud iawn am ddiffyg sylweddol y toriadau hyn. Fodd bynnag, mae lliniaru effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru yn rhan o strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi. Bydd buddsoddi mewn rhaglenni megis Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau a Chefnogi Pobl yn gwneud cyfraniad pwysig at yr agenda trechu tlodi yng Nghymru.

Rydym wedi seilio ein penderfyniadau gwario ar ddadansoddiad o ofynion ac anghenion mewn meysydd gwasanaeth cyhoeddus allweddol sydd yn arbennig o bwysig i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Yn yr hinsawdd ariannol heriol rydym wedi ceisio canolbwyntio adnoddau ar flaenoriaethau sy'n seiliedig ar asesiad o'r effaith gadarnhaol fwyaf a lliniaru effeithiau cyni cyllidol lle na ellir eu hosgoi.

Hawliau plant a phobl ifanc

Mae'r gyllideb ar gyfer Hawliau Plant a Phobl Ifanc wedi'i diogelu ar gyfer 2016/17. Mae tystiolaeth glir bod ymwybyddiaeth o hawliau plant yn cynyddu drwy arolwg Omnibws Plant a bod deddfwriaeth, polisïau a rhaglenni'r Llywodraeth yn rhoi sylw dyledus i hawliau plant. Er bod cryn gynnydd wedi'i wneud, fel y nodir yn yr Adroddiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, mae angen cynnal y momentwm. Bydd hyn yn canolbwyntio ar hyfforddiant mewnol, hyfforddiant sector-benodol allanol, rhoi'r gwerthusiad annibynnol ar waith a chodi ymwybyddiaeth o CCUHP.

Comisiynydd Plant Cymru

Rydym yn parhau i gefnogi'r Comisiynydd drwy ddarparu cyllid sylweddol yn 2016-17. Dengys hyn ein hymrwymiad parhaus i sicrhau y caiff hawliau plant a phobl ifanc eu cynrychioli gan y Comisiynydd ac y gall ei ffocws penodol ar hyrwyddo hawliau plant, trechu tlodi a rhoi cyngor i'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill a dylanwadu arnynt mewn perthynas â'r mater hwn barhau. Mynegwyd pryder ynghylch cronfeydd sylweddol wrth gefn y Comisiynydd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac Adroddiad Annibynnol Dr Shooter o'r Comisiynydd Plant. Gall y gostyngiad yng nghyllideb y Comisiynydd gael ei wrthbwyso gan gronfeydd wrth gefn y Comisiynydd heb gael fawr ddim effaith

uniongyrchol, os o gwbl, ar blant a phobl ifanc. Gyda'r fath heriau ariannol sylweddol, buom yn gyson o ran ein dull gweithredu sy'n mynnu bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i wasanaethau rheng flaen sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Nid lle Llywodraeth Cymru yw gwneud sylwadau ar yr Argymhellion ar gyfer y Comisiynydd Plant na'r Argymhellion ynglŷn â sut y dylai'r Comisiynydd ddyrannu'r gyllideb a roddir iddi. Fodd bynnag, bu'r Comisiynydd yn agored iawn ac yn barod i'm hysbysu o'i bwriadau mewn perthynas â'r argymhellion ac rydym yn ymwybodol ei bod wedi gweithredu rhai, bod gwaith yn mynd rhagddo ar rai a'i bod yn dal i ystyried rhai eraill.

Eiriolaeth

Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am y gwasanaeth eirioli i bob plentyn o'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddiwedd 2014. Bwriadwyd i'r newid hwn helpu i sicrhau trafodaethau cydlynus a hyddysg ynghylch datblygu dull cenedlaethol o ddarparu gwasanaeth eirioli i blant a phobl ifanc. Yn sgil y newid hwn, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd bellach yn arwain y maes hwn ac sy'n gyfrifol am unrhyw benderfyniadau cyllidebol.

Gofal Plant a Chwarae

Er mwyn cydnabod rôl gofalwyr a rhwystrau i addysg rydym wedi rhoi arian i sefydlu cynllun peilot gofal plant wedi'i dargedu ar gyfer myfyrwyr mewn addysg bellach er mwyn dileu'r rhwystrau i addysg a mynd i'r afael ag amddifadedd rhwng y cenedlaethau. Bwriedir iddo roi cyfle i'r rhai â chyfrifoldebau gofalu allu manteisio ar addysg bellach heb orfod poeni am gostau gofal plant. Yn benodol, bwriedir i'r cynllun peilot hwn ganolbwyntio ar gael effaith gadarnhaol ar grwpiau gwarchodedig a fyddai, o bosibl, yn elwa fwyaf, yn enwedig o ran rhywedd.

Dyfarnwyd £300k ychwanegol yn 2016-17 fel rhan o Gytundeb Cyllidebol dwy flynedd â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn 2014 er mwyn edrych ar hyn. Mae ymarfer tendro i nodi contractwr addas i gynnal astudiaeth ddichonoldeb yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn nodi pa gymorth pellach sydd ei angen ar rieni ifanc er mwyn eu helpu i ddychwelyd i Addysg Bellach, lle mae gofal plant yn rhwystr. Defnyddir yr astudiaeth ddichonoldeb i lywio'r cynllun peilot arfaethedig yn 2016-17. Mae'r gyllideb sy'n weddill ar gyfer Gofal Plant a Chwarae yn aros yn ddigyfnewid, sef £2.7m yn 2016-17 am ei bod yn ysgogwr polisi pwysig mewn perthynas â thwf a swyddi ac o ran trechu tlodi.

Yn ogystal â'r gyllideb o £2.7m ar gyfer Gofal Plant a Chwarae, rydym hefyd yn datblygu nifer o weithrediadau o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Lansiwyd Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) ar 13 Hydref 2015 ar gyfer rhieni dros 25 oed, gyda chyfanswm cyllideb o £10.9m hyd at 2018. Pan gaiff PaCE ei ymestyn i gynnwys rhieni 16-24 oed cyfanswm cost y gweithrediad fydd £13.5

miliwn. Llywodraeth Cymru yw'r prif fuddiolwr ac mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gyd-fuddiolwr. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cyflogi 43 o Gynghorwyr Cyflogaeth i Rieni a fydd wedi'u lleoli'n bennaf o fewn safleoedd Dechrau'n Deg, canolfannau Teuluoedd yn Gyntaf a chanolfannau eraill i deuluoedd. Bydd yn targedu bron 8,000 o rieni economaidd anweithgar dros oes y gweithrediad ac yn cefnogi unig rieni, rhieni o aelwyd heb waith neu'n cynorthwyo ail enillwr mewn aelwyd sy'n gweithio. Bydd yn gweithredu y tu hwnt i Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ac yn ategu gweithrediad Cymunedau am Waith Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Nid oes unrhyw ddyraniad ychwanegol wedi'i wneud i gyllideb Gofal Plant a Chwarae er mwyn cefnogi PaCE ond mae'r arian cyfatebol angenrheidiol yn cael ei ddarparu drwy Gyllideb Teuluoedd yn Gyntaf.

Y gweithrediad arall o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop rydym yn ei gynnal yw 'Progress for Success' (PfS) a ddatblygwyd ochr yn ochr â'r cynllun 10 mlynedd drafft ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru. Prif ddiben PfS yw gwella ansawdd darpariaeth o fewn lleoliadau cofrestredig a gynhelir ac nas cynhelir drwy gynyddu lefelau cymwysterau gofal plant a chwarae cydnabyddedig sydd gan weithlu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae. Ar hyn o bryd mae PfS ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn aros i gael ei gymeradwyo gan WEFO ac rydym yn parhau i gynnal trafodaethau â WEFO ynghylch Dwyrain Cymru er mwyn ei gwneud yn bosibl i gynnal rhaglen genedlaethol.
Gan droi at Chwarae, rydym yn parhau i gyflawni'r ymrwymiad yn ein maniffesto i wella cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc chwarae'n ddiogel ac, yn benodol, i helpu i wella mynediad at gyfleoedd chwarae i blant ag anableddau.
Cyhoeddwyd Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae – Canllawiau Statudol i helpu Awdurdodau Lleol i gydymffurfio â'u dyletswydd i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae a rhoi eu Cynlluniau Gweithredu Chwarae ar waith Atgoffwyd Awdurdodau Lleol o'u cyfrifoldeb i gynnal a chyflwyno Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Chynllun Gweithredu Chwarae i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2016. Diwygiwyd a dosbarthwyd y Pecyn Cymorth ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. O ran cyllid ar gyfer Chwarae Cymru, yn flaenorol rhoddwyd hyd at £401,620 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2014 a 31 Mawrth 2015. Rwyf wrthi'n ystyried cais gan Chwarae Cymru am i gymorth ariannol barhau ar ôl 31 Mawrth 2016. Rwy'n gobeithio y byddaf yn gallu gwneud penderfyniad cyn diwedd 2015 ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn y flwyddyn newydd.

Lesley Griffiths
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

	CYLLIDEB PLANT, POBL IFANC A THEULUOEDD (sy'n rhan o Brif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi)	ATODIAD 1

CYLLIDEB ADNODDAU - Terfyn Gwariant Adrannol							
Maes Rhaglenni Gwariant	**Camau gweithredu**	**Teitl y Llinell Wariant yn y Gyllideb**	**Alldro 2014-15**	**Cyllideb Atodol 2015-16**	**Cyllideb Sylfaenol 2016-17**	**Newidiadau 2016-17**	**Cyllideb Ddrafft 2016-17**
Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd	Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd	Y Comisiynydd Plant	1,715	1,715	1,715	-172	1,543
		Teuluoedd yn Gyntaf	46,450	43,652	43,652	-1,074	42,578
		Dechrau'n Deg	69,555	76,894	76,894	0	76,894
		Strategaethau Gofal Plant a Chwarae	4,271	2,766	2,766	300	3,066
		Cefnogi Hawliau Plant	518	357	357	0	357
		Cyfanswm Maes Rhaglenni Gwariant/CAM GWEITHREDU	**122,509**	**125,384**	**125,384**	**-946**	**124,438**
	Cyfanswm yr Adnoddau		**122,509**	**125,384**	**125,384**	**-946**	**124,438**

CYLLIDEB GYFALAF - Terfyn Gwariant Adrannol							
Maes Rhaglenni Gwariant	**Camau gweithredu**	**Teitl y Llinell Wariant yn y Gyllideb**	**Alldro 2014-15**	**Cyllideb Atodol 2015-16**	**Cyllideb Sylfaenol 2016-17**	**Newidiadau 2016-17**	**Cyllideb Ddrafft 2016-17**
Cymunedau a Threchu Tlodi	Cymunedau a Threchu Tlodi						
		Dechrau'n Deg	10,892	6,950	0	3,000	3,000
		Cyfanswm Maes Rhaglenni Gwariant/CAM GWEITHREDU	**10,892**	**6,950**	**0**	**3,000**	**3,000**
	Cyfanswm y Cyfalaf		**10,892**	**6,950**	**0**	**3,000**	**3,000**
	Cyfanswm DEL		**133,401**	**132,334**	**125,384**	**2,054**	**127,438**

Asesiad Effaith Integredig (IIA) ar gyfer Cyllideb 2016-17

PLANT, POBL IFANC A THEULUOEDD (o fewn y Prif Grŵp Cymunedau a Threchu Tlodi)

TROSOLWG O'R PORTFFOLIO

Nod cyffredinol yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi yw uno gwaith Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i drechu tlodi a chreu ansawdd bywyd tecach, mwy cynaliadwy a gwell ar gyfer cymunedau, teuluoedd ac unigolion, nawr ac yn yr hirdymor.
Mae'r portffolio'n mynd ati i atal tlodi, helpu pobl allan o dlodi a helpu i greu cymunedau gwydn lle gall teuluoedd ac unigolion gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae trechu tlodi plant (sy'n ystyfnig o uchel o hyd yng Nghymru) yn flaenoriaeth allweddol. Rydym yn helpu plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn cefnogi teuluoedd. Ein nod yw ceisio sicrhau bod un o'r anghenion lles mwyaf sylfaenol - sef yr angen am gartref da - yn cael ei ddiwallu, yn enwedig yn achos pobl a fyddai'n cael eu heithrio o'r farchnad dai fel arall. Rydym yn buddsoddi ac yn gweithio gyda chymunedau yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig, i wella'u lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Rydym yn mynd ati i sicrhau cydraddoldeb, yn cynnwys hawliau plant a phobl ifanc, ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus, ac yn helpu'r trydydd sector i gyfrannu at gyflawni'r amcanion rydym yn gweithio tuag atynt ac eisiau eu gweld ar waith yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod tlodi yn ffactor allweddol sy'n rhwystro plant a phobl ifanc rhag gweithredu eu hawliau. Trwy ganolbwyntio ar wella canlyniadau a threchu tlodi, gallwn wneud cyfraniad hollbwysig at weithredu hawliau plant yng Nghymru.

Mae gan yr Adran nifer o flaenoriaethau penodol sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Rhaglen Lywodraethu, Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru a'n Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, ac mae sawl un o'r blaenoriaethau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc:

- cefnogi teuluoedd a phlant, yn enwedig trwy Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf (ond trwy Cymunedau yn Gyntaf hefyd);
- trechu tlodi a hybu gwydnwch cymunedau yn cynnwys Cymunedau yn Gyntaf;
- darparu cartrefi fforddiadwy, diogel a chynnes i blant a theuluoedd drwy ein Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol;
- gwella ansawdd y stoc tai cymdeithasol yng Nghymru drwy ein rhaglen Lwfans Atgyweiriadau Mawr;
- adfywio ein trefi a'n cymunedau drwy Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid;
- cynnig cymorth drwy ein rhaglen Cefnogi Pobl i alluogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain yn hirach;
- lleihau effaith diwygiadau lles;
- cynyddu cynhwysiant ariannol a digidol, yn cynnwys y Gronfa Cymorth Dewisol ac Undebau Credyd;

- cynyddu'r ddarpariaeth fforddiadwy o ofal plant a chwarae o safon;
- hybu hawliau a chyfranogiad plant a phobl ifanc;;
- hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant; a
- chefnogi datblygiad y Trydydd Sector a gwella'i berthynas strategol â'r Llywodraeth.

PROFFIL GWARIANT

Terfyn Gwariant Adrannol Adnodd Ariannol				**£000**
Maes Rhaglenni Gwariant	**Cyllideb Atodol 2015-16**	**Cyllideb Llinell Sylfaen 2016-17**	**Newidiadau 2016-17**	**Cyllideb Ddrafft 2016-17**
Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd	**125,384**	**125,384**	**-946**	**124,438**
Cymunedau a Threchu Tlodi (Cyfalaf)	**6,950**	**0**	**3,000**	**3,000**

NEWIDIADAU ALLWEDDOL I WARIANT

<u>Maes Rhaglenni Gwariant Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd</u>

- Dechrau'n Deg – arian gwastad o hyd
- Cymorth ar gyfer Hawliau Plant – arian gwastad o hyd
- Teuluoedd yn Gyntaf – gostyngiad o £1.074 miliwn
- Y Comisiynydd Plant – gostyngiad o £0.172 miliwn
- Strategaethau Gofal Plant a Chwarae – cynnydd o £0.3 miliwn

<u>Maes Rhaglenni Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi (Cyfalaf)</u>

- Dechrau'n Deg – cynnydd o £3 miliwn o'r gyllideb llinell sylfaen

EFFEITHIAU

Wrth weithredu egwyddor datblygu cynaliadwy mewn perthynas â'r gyllideb ym maes Cymunedau a Threchu Tlodi, mae penderfyniadau wedi'u gwneud sy'n adlewyrchu'r pum ffordd o weithio o dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy:

- *Cydweithio* – cydnabod na all llawer o'r heriau 'cynaliadwyedd' sy'n wynebu Cymru gael eu datrys gan un sefydliad. Bydd parhau i roi cymorth ar gyfer cyngor ar ddatblygu cynaliadwy i bob sector yn ein helpu i ganfod cyfleoedd i gydweithio. Byddwn yn dal ati hefyd i geisio canfod cyfleoedd i gydweithio o fewn y Llywodraeth a gyda phartneriaid eraill, yn cynnwys y trydydd sector, fel bod rhaglenni a gwasanaethau'n cyrraedd y cymunedau sydd eu hangen fwyaf.
- *Integreiddio* - mae ein rhaglenni Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf yn rhannu rhai o'r un amcanion sef hyrwyddo ffyniant a chyflogaeth, dysgu a chyflawni potensial, ac iechyd a lles. Maent yn helpu i gyflawni'r amcanion yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd.
- *Hirdymor* – Rydym wedi ystyried effeithiau hirdymor posibl ein penderfyniadau ac wedi cydbwyso'r rhain yn erbyn ein hanghenion byrdymor. Mae hyn wedi ein galluogi i gynllunio ar sail adnabod heriau cyn iddynt godi fel ein bod yn gallu cydbwyso pwysau byr dymor gydag anghenion hirdymor. Yn arbennig, buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar a chymorth i deuluoedd, gan fod tystiolaeth yn dangos y bydd hyn yn arwain at fwy o fudd yn yr hirdymor.
- *Atal* - ceisio mynd i wraidd y broblem yn hytrach na mynd i'r afael â chanlyniadau'r problemau hyn maes o law. Nid yn unig y mae atal ac ymyrryd yn gynnar o fudd i bobl a chymunedau ond mae potensial hefyd i greu arbedion cost yn yr hirdymor. Dyma yw hanfod ein rhaglenni trechu tlodi, yn enwedig Teuluoedd yn Gyntaf, a'n dull o fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n wynebu pobl â nodweddion gwarchodedig.
- *Cynnwys pobl* - cydnabod pwysigrwydd cynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt: er enghraifft, mae cynnwys cymunedau yn nodwedd allweddol y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Mae blaenoriaethu anghenion y bobl dlotaf ac amddiffyn y rhai dan yr anfantais fwyaf a'r rhai mwyaf agored i niwed yn hollbwysig, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn darparu fframwaith pwysig ar gyfer yr ymdrechion hyn. Yn arbennig, mae gwaith i drechu tlodi a gwaith i leihau anghydraddoldeb nid yn unig yn cyflenwi ei gilydd ond maent yn adeiladu ar ei gilydd hefyd.

Dengys tystiolaeth fod pobl â nodweddion gwarchodedig arbennig yn fwy tebygol o fyw mewn aelwydydd incwm isel ac felly bydd mentrau i drechu tlodi yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hynny. Gwyddom hefyd fod rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, rhieni unigol (sy'n fenywod gan amlaf), a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn fwy tebygol o fod yn byw mewn aelwydydd incwm isel. Yn arbennig, mae gan bobl anabl gynrychiolaeth anghymesur mewn aelwydydd economaidd anweithgar ac aelwydydd heb waith. Rydym yn cydnabod y byddwn yn wynebu heriau sylweddol wrth geisio cyflawni ein targedau trechu tlodi oni bai ein bod yn rhoi pwyslais cryf ar helpu pobl anabl i gael gwaith. Byddwn yn parhau i ganfod cyfleoedd i asio Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru gyda'r amcanion yn y Strategaeth Tlodi Plant a'n Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, a chefnogi'r

plant a'r teuluoedd hynny sydd â nodweddion gwarchodedig penodol. Eisoes mae mwy o bwyslais ar fonitro canlyniadau'r grwpiau hynny sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi a'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig yn y rhaglenni sy'n rhan o'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi.

Dechrau'n Deg (Refeniw)
Nod y rhaglen Dechrau'n Deg yw gwella'r canlyniadau ar gyfer plant mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ledled Cymru. Gwneir hyn drwy gynnig pedair hawl Dechrau'n Deg allweddol i blant o dan bedair oed a'u teuluoedd: gwasanaeth ymwelydd iechyd gwell, cymorth magu plant, cymorth i ddatblygu iaith yn gynnar, a gofal plant rhan-amser, o safon ac am ddim i blant 2-3 oed.

Yn y tymor hwy, bydd y rhaglen Dechrau'n Deg yn gwella cyfleoedd bywyd plant sydd wedi elwa ar y rhaglen. Roedd y gwerthusiad cenedlaethol, annibynnol o Dechrau'n Deg yn dangos bod y rhaglen yn newid pethau er gwell. Dengys data dystiolaeth o holl ganlyniadau uniongyrchol disgwyliedig y Rhaglen. Yn eu plith mae'r canlyniadau datblygu iaith, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a datblygiad gwybyddol ar gyfer plant. Mae tystiolaeth hefyd fod rhai o rieni'r plant yn y rhaglen yn cael budd o'r cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd a gwella'u rhagolygon gwaith.

Y dyraniad ar hyn o bryd ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb Dechrau'n Deg yn 2016-17 yw £76,894,000 sy'n cynrychioli cyllideb wastad yn erbyn 2015-16.

YMGYSYLLTU

Mae gan Dechrau'n Deg raglen helaeth o ymgysylltu â'r prif randdeiliaid. Cynhelir cyfarfodydd monitro Awdurdodau Lleol gyda Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn, ac mae Timau Monitro Llywodraeth Cymru yn cyfarfod ag Awdurdodau Lleol i drafod materion data fel sy'n ofynnol ac mae Tîm Cyllid yr Is-adran Teuluoedd wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda chydgysylltwyr Awdurdodau Lleol i helpu i wella'r broses o adrodd ar gyllid.

Caiff cyfarfodydd grŵp ar gyfer Cydgysylltwyr Dechrau'n Deg ac Ymwelwyr Iechyd eu trefnu gan yr Is-adran Teuluoedd i rannu arfer gorau a thrafod unrhyw faterion sydd o ddiddordeb i'r naill barti a'r llall. Trefnir cynhadledd flynyddol ar gyfer y Rhaglen Dechrau'n Deg. Mae hyn yn cynnwys seremoni wobrwyo fer lle mae unigolion sy'n darparu gwasanaeth heb ei ail fel rhan o'r rhaglen Dechrau'n Deg yn cael eu gwobrwyo. Caiff yr unigolion eu henwebu gan rieni sy'n ymwneud â'r rhaglen. Mae rhieni'n cyfrannu'n helaeth at weithgareddau gwerthuso hefyd, gan gymryd rhan mewn arolygon a chynnig eu barn.

TYSTIOLAETH

Yn y tymor hwy bydd y rhaglen Dechrau'n Deg yn gwella cyfleoedd bywyd plant sydd wedi elwa ar y rhaglen. Mae tystiolaeth anecdotaidd wedi dangos eisoes fod plant

Dechrau'n Deg, adeg dechrau yn yr ysgol, yn fwy parod i ddysgu a bod eu sgiliau llefaredd ac iaith yn well. Dengys data gwerthuso dystiolaeth o holl ganlyniadau uniongyrchol disgwyliedig y rhaglen. Yn eu plith mae'r canlyniadau datblygu iaith, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a datblygiad gwybyddol ar gyfer plant. Mae tystiolaeth hefyd fod rhai o rieni'r plant yn y Rhaglen yn cael budd o'r cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd a gwella'u rhagolygon gwaith.

Ni wyddir am unrhyw effeithiau negyddol i'r Rhaglen. Dylai'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac sydd â phlentyn dan 4 oed elwa ar y Rhaglen os ydynt yn dewis ymgysylltu a manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Os dewisant beidio ag ymgysylltu am ba reswm bynnag, ni fydd teuluoedd fwy ar eu colled (will be no worse off) nag y byddent pe baent yn byw y tu allan i'r ardal Dechrau'n Deg.

Mae Dechrau'n Deg yn destun rhaglen werthuso barhaus. Caiff gweithgareddau gwerthuso eu comisiynu gan dimau ymchwil y sector preifat a chyhoeddir y canlyniadau ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae canfyddiadau'r ymchwil ansoddol wedi dangos effaith gadarnhaol ar rieni mewn perthynas ag ymddygiad rhieni, iechyd a lles, a'u barn am yr ardal leol.

Dechrau'n Deg (Cyfalaf)

Mae cyllid cyfalaf Dechrau'n Deg a ddarparwyd yn y gorffennol wedi'i ddefnyddio i ehangu'r rhaglen Dechrau'n deg a darparu'r seilwaith sydd ei angen i ddyblu nifer y plant sy'n elwa ar y rhaglen o 18,000 i 36,000. Mae'r buddsoddiad hwn wedi arwain at ddatblygu'r 'seilwaith cymdeithasol' y cyfeirir ato yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru drwy weithio yng nghalon ein cymunedau mwyaf difreintiedig a gwella lles a chyfleoedd bywyd plant dan 4 oed. Mae Dechrau'n Deg wedi darparu lleoliadau o safon sy'n hanfodol ar gyfer rhoi'r rhaglen ar waith mewn ardaloedd o amddifadedd uchel.

Ystyrir y rhaglen gyfalaf yn llwyddiant gyda phrosiectau o ansawdd i godi adeiladau newydd ac addasu hen rai ledled Cymru. Bydd y rhaglen adeiladu/addasu yn dod i ben yn 2015-16 er y bydd gofyniad i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal a chadw adeiladau cyfredol. Mae cyllideb o £3 miliwn wedi'i dyrannu ar gyfer 2016-17 i helpu i gynnal a chadw ac atgyweirio cyfleusterau sydd eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg, ac mae'n bosibl y bydd angen cael lleoliadau newydd yn lle rhai o'r 'hen' rai. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr ystâd yn parhau i fod yn hyfyw a bod modd darparu'r rhaglen mewn lleoliadau o safon.

YMGYSYLLTU

Mae gan reolwr cyfalaf Dechrau'n Deg raglen helaeth o ymgysylltu â'r prif randdeiliaid. Cynhelir cyfarfodydd monitro Awdurdod Lleol yn rheolaidd i drafod materion. Mae Cydgysylltwyr Dechrau'n Deg yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd Cydgysylltwyr cyffredinol a'r gynhadledd flynyddol a drefnir ar gyfer y Rhaglen Dechrau'n Deg.

TYSTIOLAETH

Caiff gwariant cyfalaf ei werthuso mewn dau gam. Mae pwyllgor Gwariant Cyfalaf yn yr Is-adran Cymunedau a Threchu Tlodi yn craffu ar gynigion am gyllid ac yn cytuno ar yr ymrwymiad cyfalaf. Mae Rheolwr Cyfrif Dechrau'n Deg yn arolygu gwaith adeiladu a'r adeiladau gorffenedig i sicrhau eu bod yn cael eu hadeiladu yn unol â'r fanyleb ac nad oes unrhyw wariant anawdurdodedig. Pan fydd problemau'n codi, gellir cael cyngor gan wasanaethau arbenigol yn Llywodraeth Cymru fel gwasanaethau mesur meintiau.

Cefnogi Hawliau Plant

Yn unol ag adborth Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb ac i adlewyrchu argymhellion Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Arferion Gorau o ran y Gyllideb, rydym wedi cynnal asesiad effaith integredig ei natur unwaith yn rhagor. Er gwaethaf yr heriau a ddaeth yn sgil amseru hwyr Adolygiad Gwario'r DU, rydym wedi canolbwyntio ar wneud penderfyniadau lefel uchel strategol gwybodus ar sail ein dadansoddiad o dystiolaeth ategol, yn enwedig mewn perthynas â phobl â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn wedi ein galluogi i ystyried yn llawn anfantais economaidd-gymdeithasol, hawliau plant, y Gymraeg a datblygu cynaliadwy, yn ogystal â chanolbwyntio ar gydraddoldeb a threchu tlodi.

Trwy weithredu Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rydym yn hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn annog ac yn hwyluso ystyriaeth o'r Confensiwn yng ngwaith y Llywodraeth. Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar bob Gweinidog i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth weithredu unrhyw un o'u swyddogaethau.

Mae hyn yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol iawn ar bob un o'r 9 nodwedd warchodedig. Mae amrywiol erthyglau yn y Confensiwn yn adlewyrchu pwysigrwydd cefnogi'r nodweddion gwarchodedig hyn. Er enghraifft, mae erthygl 14 yn rhoi'r hawl i blant a phobl ifanc arfer eu credoau crefyddol, mae erthygl 23 yn amddiffyn plant ag anableddau ac mae erthygl 30 yn amddiffyn plant lleiafrifoedd.

Rydym yn hyrwyddo ac yn sicrhau defnydd effeithiol o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant a rhoi sylw dyledus iddynt ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Rhwng 2012 a 2014, cynyddodd nifer yr Asesiadau o'r fath o 47 i 114. Mae'r Asesiadau hyn hefyd yn ysgogi ystyriaeth o dlodi plant, yn enwedig gan fod sawl erthygl yn y Confensiwn yn ymwneud â phwysigrwydd diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed a'r rhai yn yr angen pennaf. Wrth i'r Asesiadau hyn gael eu cwblhau, rydym yn mynd ati i sicrhau bod hawliau plant ac unrhyw oblygiadau o ran trechu tlodi plant yn cael eu hystyried gyda'i gilydd.

Mae'r gangen yn ariannu hyfforddiant mewnol ac allanol hefyd gyda chryn lwyddiant, gan godi ymwybyddiaeth o hawliau plant ledled Cymru. Fel astudiaeth achos ragorol arall, cyn mis Mai 2014, roedd dros 2,000 o swyddogion Llywodraeth Cymru wedi

cwblhau hyfforddiant ar-lein ar y Confensiwn a ddatblygwyd gan y gangen. Rhwng mis Mai 2014 a mis Ebrill 2015, cafodd 562 aelod arall o staff hyfforddiant.

Ni welwyd unrhyw effeithiau negyddol ar blant, y Gymraeg neu ar y rheini â nodweddion gwarchodedig yn sgil y penderfyniad i gynnal gwariant ar gefnogi hawliau plant. Rydym yn cyfrannu mewn sawl ffordd at amcanion lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Yn yr hirdymor, mae canolbwyntio ar amddiffyn ein cenedlaethau iau yn golygu ein bod yn rhoi dechrau da ar gyfer cenedlaethau llewyrchus yn y dyfodol. Er enghraifft, mae'r Confensiwn yn cynnwys erthygl i amddiffyn:

- iechyd plant, gan arwain at Gymru iachach,
- cydraddoldeb plant, gan arwain at Gymru fwy cyfartal,
- amgylcheddau ffisegol plant, gan arwain at Gymru fwy cyfrifol yn fyd-eang, a
- hawliau plant i hunaniaeth, sy'n arwain at Gymru llawn cymunedau mwy cydlynol ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu

I'r perwyl hwn, bydd cynnal y gyllideb ar gyfer hawliau plant yn sicrhau bod yr effaith gadarnhaol iawn hyn yn parhau yn achos penderfyniadau cyllidebol yn awr ac yn y dyfodol.

YMGYSYLLTU

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cynnwys pedair prif egwyddor, ac un ohonynt yw hawl Plentyn i gymryd rhan, bod â llais, cael ei glywed a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arno. Mae ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a'r rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda nhw ac yn eu cynrychioli, yn hanfodol felly i waith y gangen. Mae cyllid wedi'i ddyrannu i Cymru Ifanc i alluogi'r Llywodraeth i glywed barn plant a phobl ifanc a'u galluogi i gydrannu at Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn a Senedd Ieuenctid y DU. Rydym wedi comisiynu arolygon i fesur effaith ein gwaith ar blant a phobl ifanc, ac i ymchwilwyr allu ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Mae enghreifftiau o waith ymchwil o'r fath yn cynnwys Arolwg Omnibws Plant Cymru, yr Adolygiad Annibynnol o Rôl a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru (a arweiniodd at nifer o argymhellion yn ymwneud â gwaith y gangen) a gwerthusiad annibynnol dan arweiniad Arsyllfa Hawliau Plant Cymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda swyddogion Awdurdodau Lleol hefyd er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn lleol, a rhanddeiliaid hawliau plant cenedlaethol. Roedd Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig Llywodraeth Cymru yn cyfeirio'n benodol at bwysigrwydd "ymgynghori, yn gwrando ac yn gweithredu ar farn plant a phobl ifanc" ac yn cynnwys ymrwymiad penodol i gynnwys pobl ifanc wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni i gyflawni targedau'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Mae Cymru Ifanc yn cynnig mecanwaith pwysig ar gyfer bwrw rhagddi â'r gwaith hwn.

O fewn ein gwaith ni o godi ymwybyddiaeth o hawliau plant, rydym wedi cymryd gofal i roi sylw cyfartal i'r rheini â nodweddion gwarchodedig ac i'r Gymraeg. Mae'r holl ddeunydd hyrwyddo ac adnoddau hyfforddi wedi'u paratoi'n ddwyieithog a chânt eu

rhannu'n eang drwy sefydliadau sy'n gweithio mewn lleoliadau prif ffrwd a'r rheini sy'n gweithio gyda grwpiau ar gyrion cymdeithas.

TYSTIOLAETH

O ddefnyddio dull integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwerthuso, rydym wedi datblygu dealltwriaeth ehangach o'r ffactorau trawsbynciol sy'n rhoi pwysau ar y prif feysydd gwasanaeth, yn unol â'n blaenoriaethau allweddol, ar yr un pryd â thargedu cyllid ar gyfer y rheini sydd ei angen fwyaf. Mae hyn wedi ein galluogi i gael dealltwriaeth ehangach o effaith gyfan penderfyniadau gwario ar ddarpariaeth gwasanaethau allweddol drwy edrych ar gyflawni gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn ffordd gyfannol.

Er bod y dystiolaeth bod mwy o Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu defnyddio i sicrhau sylw dyledus i hawliau plant yn glir, mae'r gangen yn cymryd gofal hefyd i sicrhau bod y plant eu hunain yn ymwybodol o'u hawliau. Ym mis Tachwedd 2015, cawsom ganlyniadau cychwynnol gan Arolwg Omnibws Plant Cymru. Comisiynwyd yr arolwg fel ffordd o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u holi am eu gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'u hawliau. Mae'r canlyniadau'n dangos llwyddiant y gangen o ran hyrwyddo a chefnogi hawliau plant, ond maent yn ein helpu ni hefyd i ganfod meysydd sydd angen sylw. Rydym wedi gweld cynnydd sydyn hefyd yn y galw am ddeunyddiau hyrwyddo'r Confensiwn sy'n rhoi adborth cadarnhaol a sicrwydd bod ymwybyddiaeth o'r Confensiwn ar gynnydd.

Yn ogystal, mae tystiolaeth o effaith gadarnhaol cefnogi hawliau plant i weld yn glir yn Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Mae'n adolygu gwaith Llywodraeth Cymru dros y pum mlynedd diwethaf ac yn dangos effaith gadarnhaol deddfwriaeth, polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru ar Blant a Phobl Ifanc ers cyflwyno'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'r Rhaglen Plant a Phobl Ifanc yn dangos pwysigrwydd ein gwaith ymgysylltu â thimau yn y Llywodraeth drwyddi draw a chanlyniadau pellgyrhaeddol ymgysylltu o'r fath. Bydd parhau i gefnogi hawliau plant yn sicrhau bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i blant a phobl ifanc yn parhau.

Teuluoedd yn Gyntaf

Rhaglen arloesol yw Teuluoedd yn Gyntaf sy'n hybu datblygiad systemau a chymorth aml-asiantaeth effeithiol ar gyfer teuluoedd, gyda phwyslais clir ar atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd, yn enwedig rhai sy'n byw mewn tlodi. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod tymor hwn y Cynulliad a byddwn yn buddsoddi £42.6 miliwn yn 2016-17.

Mae'r rhaglen yn ymateb allweddol i Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at amcanion y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

Mae tystiolaeth werthuso yn dangos bod Teuluoedd yn Gyntaf wedi sicrhau newid sylweddol yn y ffordd y mae pob Awdurdod Lleol yn rhoi cymorth i deuluoedd. Mae gwaith aml-asiantaeth yn cael ei ystyried yn hollol hanfodol erbyn hyn, ac mae'r rhaglen wedi gwella'r ffordd y mae asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi ein teuluoedd mwyaf agored i niwed. Mae comisiynu gwasanaethau drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i adlewyrchu anghenion teuluoedd yn well nag erioed o'r blaen. Mae canolbwyntio ar deuluoedd wrth asesu a theilwra cymorth i deuluoedd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i ganlyniadau teuluoedd ac mae cyfleoedd bywyd yn gwella o ganlyniad. Yn ogystal, roedd y gwerthusiad diweddar yn tynnu sylw at sut gallai'r rhaglen leihau costau cryn dipyn drwy helpu teuluoedd i osgoi canlyniadau hirdymor gwael. Mae tystiolaeth werthuso'n dangos bod gwasanaethau ar gyfer teuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan anabledd wedi gwella diolch yn uniongyrchol i Teuluoedd yn Gyntaf ac mae canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cofnodi. Mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi ariannu gwasanaethau newydd ar gyfer teuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan anabledd ac mae wedi arwain at integreiddio a chydgysylltu gwasanaethau cyfredol yn well.

Mae canllawiau'n ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu gwasanaethau gan ddefnyddio disgresiwn a hyblygrwydd lleol i ddiwallu'r anghenion sydd wedi'u nodi'n lleol. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn gwasanaethu'r boblogaeth gyfan heb ystyried hil, anabledd a nodweddion gwarchodedig eraill.

Mae ffocws pendant ar ddarparu ar gyfer anghenion penodol teuluoedd â phlant anabl a bod gwasanaethau a gweithgareddau'n ystyried yr anghenion hyn yn llawn. Mae'r rhaglen yn cynnwys elfen wedi'i chlustnodi ar gyfer prosiectau anabledd a'r bwriad yw diogelu'r elfen hon.

YMGYSYLLTU

Mae gan Teuluoedd yn Gyntaf raglen helaeth o ymgysylltu â'r prif randdeiliaid. Cynhelir cyfarfodydd monitro Awdurdodau Lleol gyda Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn, ac mae Timau Monitro Llywodraeth Cymru yn cyfarfod ag Awdurdodau Lleol i drafod materion data fel sy'n ofynnol ac mae Tîm Cyllid yr Is-adran Teuluoedd wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda chydgysylltwyr Awdurdodau Lleol i helpu i wella'r broses o adrodd ar gyllid.

Caiff cyfarfodydd grŵp ar gyfer Cydgysylltwyr Teuluoedd yn Gyntaf eu trefnu gan yr Is-adran Teuluoedd i rannu arfer gorau a thrafod unrhyw faterion sydd o ddiddordeb i'r naill barti a'r llall. Trefnir cynhadledd flynyddol ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf lle mae'r bobl sy'n ymwneud â'r rhaglen yn dod ynghyd i glywed am arfer gorau a gweithgareddau'r dyfodol. Mae rhieni yn mynychu ac yn cyfrannu'n helaeth at weithgareddau gwerthuso hefyd, gan gymryd rhan mewn arolygon a chynnig eu barn.

TYSTIOLAETH

Mae gweithgareddau gwerthuso Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys dadansoddi setiau data a gasglwyd fel rhan o'r datganiadau chwarterol gan Awdurdodau lleol a gwasanaethau a gomisiynwyd gan gwmnïau ymchwil y sector preifat. Mae gwaith amlasiantaeth yn cael ei gydnabod fel rhywbeth hanfodol yn hytrach na dewisol erbyn hyn, ac mae'r rhaglen wedi gwella'r ffordd mae asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi ein teuluoedd mwyaf agored i niwed.

Mae'r cymorth a ddarperir gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn ddwys ac mae wedi'i deilwra'n arbennig yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd yn lleol. Mae natur y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn golygu bod awdurdodau lleol yn gallu comisiynu prosiectau sy'n canolbwyntio ar ddiwallu'r anghenion sydd wedi'u nodi yn eu hardal leol, ac mewn llawer o ardaloedd mae prosiectau wedi'u comisiynu sy'n ceisio lleihau lefelau tlodi plant yng Nghymru.

Mae'r modelau Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) a'r Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) ar waith ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru erbyn hyn. Mae tystiolaeth werthuso yn dangos bod teuluoedd sydd wedi cael cymorth drwy'r dull TAF yn teimlo bod gwahaniaeth amlwg yn y math o gymorth a oedd ar gael o gymharu â'u profiad blaenorol o wasanaethau cymorth. Mae'r dull TAF yn annog teuluoedd i ysgwyddo cyfrifoldeb am eu twf a'u datblygiad eu hunain i adeiladu ar eu cryfderau. Mae teuluoedd yn gwerthfawrogi'r dull hwn sy'n eu grymuso ac yn eu hannog i gymryd rheolaeth dros wella canlyniadau eu teulu

Caiff adroddiadau gwerthuso eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Y Comisiynydd Plant

Rydym ni fel Llywodraeth yn penodi ac yn ariannu'r Comisiynydd Plant, yn unol â deddfwriaeth. Y tu hwnt i hyn, y Comisiynydd Plant sydd i benderfynu sut mae rheoli'r gyllideb gan ei bod yn gorfforaeth undyn ac yn annibynnol ar y Llywodraeth. Er hynny, mae disgwyl i'r Comisiynydd ddarparu amcangyfrif o'r gyllideb i Lywodraeth Cymru a bydd y gyllideb honno'n cael ei chyflwyno ger bron y Cynulliad i sicrhau tryloywder ac er mwyn craffu arni. Fel llysgennad hawliau plant, bydd ariannu Comisiynydd Plant Cymru yn sicr o gael effaith gadarnhaol ar hawliau plant a phobl ifanc. Ni ragwelir unrhyw effaith negyddol ar y rheini â nodweddion gwarchodedig na'r Gymraeg.

Cafodd cronfeydd ariannol wrth gefn sylweddol y Comisiynydd eu codi yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac yn yr Adolygiad Annibynnol o'r Comisiynydd. Ychydig iawn o effaith, os o gwbl, a gaiff y penderfyniad i leihau cyllid Comisiynydd Plant Cymru ar y rhieni â nodweddion gwarchodedig, y Gymraeg neu blant a phobl ifanc yn ôl pob tebyg, gan fod modd defnyddio cronfeydd wrth gefn y Comisiynydd Plant i wrthbwyso'r lleihad yn y cyllid.

I'r perwyl hwn, bydd parhau i ariannu'r Comisiynydd Plant yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni llawer o'r amcanion llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru ddyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo a diogelu hawliau Plant a Phobl Ifanc ac felly mae'r manteision yn cynnwys:

- iechyd gwell i blant, sy'n arwain at Gymru iachach,
- cydraddoldeb gwell i blant, sy'n arwain at Gymru fwy cyfartal,
- amgylcheddau ffisegol gwell i blant, sy'n arwain at Gymru fwy cyfrifol yn fyd-eang, a
- hawliau plant i gael hunaniaeth, sy'n arwain at Gymru o gymunedau mwy cydlynol a'r iaith Gymraeg sy'n ffynnu.

YMGYSYLLTU

Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o Gomisiynydd Plant Cymru, a chyhoeddwyd y canlyniadau yn 2014. Cynhaliwyd yr adolygiad gan Dr Mike Shooter, a gymerodd ofal i ymgysylltu â llawer o randdeiliaid wrth ystyried sawl agwedd ar rôl a swyddogaethau'r Comisiynydd, yn cynnwys effaith a gwerth am arian y Comisiynydd. Roedd hyn, wrth reswm, yn cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, rhanddeiliaid allanol sylweddol, yn ogystal â'r Comisiynydd a'i swyddfa.

Yn ystod ei adolygiad bu Dr Shooter yn ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol ac yn ystyried tystiolaeth ynghylch rôl y Comisiynydd a'u heffaith ar y grwpiau hyn. Argymhellwyd y dylai'r Comisiynydd wneud mwy i fod yn fwy hygyrch i grwpiau lleiafrifol. Wrth ymateb i'r argymhelliad hwn, mae'r Comisiynydd wedi herio ei swyddfa i bwyso a mesur sut maent yn ymgysylltu â phob plentyn a pherson ifanc. Dywed y Comisiynydd ei bod yn falch o'r gwaith mae ei swyddfa eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â llawer o grwpiau agored i niwed lleiafrifol. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd yn cydnabod nad oes lle iddi orffwys ar ei rhwyfau ac mae'n pwysleisio ei hymrwymiad i weithio mewn dull mwy strategol a phwrpasol yn y dyfodol gan gael mwy o effaith a chanolbwyntio mwy ar y plentyn. Cyhoeddwyd ymateb y Comisiynydd i argymhellion yr Adolygiad ym mis Hydref 2015.

TYSTIOLAETH

Mae'r dystiolaeth yn adolygiad Dr Shooter yn dangos yn glir effaith gadarnhaol Comisiynydd Plant Cymru ar hawliau plant yng Nghymru. Mae'r lleihad yn y gyllideb yn adlewyrchu cronfeydd wrth gefn y Comisiynydd fel y nodwyd yn adolygiad Shooter, yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac yng nghyfrifon blynyddol y Comisiynydd ei hun sydd wedi'u harchwilio.

Strategaeth Plant a Chwarae

Mae darpariaeth Gofal Plant a Chwarae yn bwysig, gan ei bod yn sbardun polisi arwyddocaol mewn perthynas â thwf swyddi ac o ran trechu tlodi. Mae gwerthusiadau

olynol wedi dod i'r casgliad bod cael gofal plant fforddiadwy ac o ansawdd yn hanfodol i helpu pobl sydd angen gweithio, neu feithrin sgiliau i'w galluogi i weithio.

Caiff datblygu gofal plant ansawdd uchel, hygyrch a fforddiadwy ei gydnabod yn y **Rhaglen Lywodraethu**, y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'r Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant fel elfen allweddol i sicrhau bod rhieni'n gallu cwblhau hyfforddiant a gweithio. Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i ysgogi cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop o dan y cylch cyfredol o raglenni Ewropeaidd i gefnogi gweithgareddau Gofal Plant fel rhan o'n nod o hybu cynhwysiant cymdeithasol a **mynd i'r afael â thlodi**.

Lansiwyd PaCE (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth) ar 13 Hydref 2015 ar gyfer rhieni dros 25 oed, gyda chyllideb o £10.9 miliwn hyd at 2018. Llywodraeth Cymru yw'r buddiolwr blaen gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) fel cyd-fuddiolwr. Bydd DWP yn cyflogi 43 o Gynghorwyr Cyflogaeth i Rieni i weithio'n bennaf mewn lleoliadau Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf neu ganolfannau eraill i deuluoedd. Bydd yn targedu bron i 8,000 o rieni economaidd anweithgar yn ystod oes y prosiect ac yn cynorthwyo unig rieni, rhieni o aelwydydd heb waith neu ail enillydd cyflog mewn aelwyd sy'n gweithio. Bydd yn gweithredu y tu allan i Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ac yn ategu'r cynllun Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Cymunedau am Waith. Nid oes unrhyw gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r gyllideb Gofal Plant a Chwarae er mwyn cefnogi PaCE ond mae'r cyllid cyfatebol angenrheidiol yn cael ei ddarparu drwy Gyllideb Teuluoedd yn Gyntaf.

Y cynllun Cronfa Gymdeithasol Ewrop arall sydd gennym yw Progress for Success (PfS) sydd wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â'r cynllun 10 mlynedd drafft ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru. Prif ddiben PfS yw gwella ansawdd y ddarpariaeth mewn lleoliadau a gynhelir a nas cynhelir cofrestredig drwy gynyddu faint o gymwysterau gofal plant a chwarae cydnabyddedig sydd gan weithlu'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae cyfredol.

Rydym yn cynorthwyo'r **sector gofal plant** drwy gynorthwyo sefydliadau gofal plant cenedlaethol a darparu cymorth ariannol i awdurdodau lleol i hyrwyddo a datblygu gofal plant cyn ac ar ôl ysgol.

I gydnabod rôl gofalwyr a rhwystrau i addysg, rydym wedi darparu cyllid i sefydlu cynllun peilot gofal plant addysg bellach wedi'i dargedu i ddileu'r rhwystrau i addysg a mynd i'r afael ag amddifadedd sy'n pontio'r cenedlaethau. Nod y cynllun yw rhoi cyfle i bobl â chyfrifoldebau gofalu allu cael addysg bellach heb orfod poeni am gostau gofal plant. Yn arbennig, y bwriad yw y bydd y cynllun peilot hwn yn canolbwyntio ar gael effaith gadarnhaol ar grwpiau gwarchodedig a fyddai'n gweld y manteision mwyaf o bosibl, yn enwedig yn achos rhyw.

Mae £300,000 ychwanegol wedi'i ddyfarnu yn 2016-17 fel rhan o Gytundeb Cyllideb dwy flynedd o hyd gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn 2014 i edrych ar hyn. Bydd

yr astudiaeth ddichonoldeb yn pennu pa gymorth arall sydd ei angen ar gyfer rhieni ifanc i'w helpu i ddychwelyd i Addysg Bellach, lle mae gofal plant yn eu rhwystro rhag gwneud hynny. Defnyddir yr astudiaeth ddichonoldeb i lywio'r cynllun peilot arfaethedig mewn 2016-17.

Rydym yn parhau i gyflawni'r ymrwymiad yn ein maniffesto i wella cyfleoedd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc i chwarae'n ddiogel ac, yn arbennig, i gefnogi mynediad gwell at chwarae ar gyfer plant ag anableddau. Mae Creu cyfle i chwarae – Canllawiau Statudol wedi'u cyhoeddi i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i gydymffurfio â'u dyletswydd i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae a gweithredu eu Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Chwarae.

YMGYSYLLTU

Mae gan reolwyr Gofal Plant a Chwarae raglen flynyddol o ymgysylltu â'r prif randdeiliaid. Mae Timau Monitro Llywodraeth Cymru yn cyfarfod ag Awdurdodau Lleol i drafod monitro ac adrodd yn ôl y gofyn.

Mae Ymgynghoriadau Ffurfiol wedi'u cynnal gyda rhanddeiliaid ledled Cymru ar drefniadau gofal plant yng Nghymru yn y dyfodol hefyd.

TYSTIOLAETH

Mae gwerthuso'n digwydd fel rhan o weithgareddau rheoli grantiau a rheoli prosiectau cyffredin. Mae gwerthuso'n digwydd ar ffurf adroddiadau monitro, adroddiadau blynyddol ac ymchwil wedi'i chomisiynu pan fydd angen. Mae grantiau a gweithgareddau dan y rhaglen hon yn gymharol fach ac mae hyd a lled y gwaith adrodd a gwerthuso yn cyfateb â lefel y risg ymddangosiadol.

Ceir adroddiadau Cyfeirio Credyd ar y sefydliadau'r Trydydd Sector rydym yn gweithio gyda nhw cyn dyfarnu grant ac yn ystod oes y prosiect cyn gwneud taliadau.